


## 10.1. Prif System Newyddion y Brifysgol

Mae Prif System Newyddion y Brifysgol yn debyg i'r tudalennau Newyddion Adrannol ond nid ydynt yn union yr un fath oherwydd y gofynion penodol gan yr Adran Gyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

**Newyddion y Brifysgol:** <https://www.aber.ac.uk/cy/news/>



The screenshot shows the 'News' section of the Aberystwyth University website. The header includes the university logo and navigation options like 'Cymraeg', a search icon, and a menu icon. A sidebar on the left lists categories: Latest News, News Archive, Departmental News, Staff: Weekly Bulletin, Staff: Aber News, and Contact Us. The main content area features three news items, each with a thumbnail image, a title, a short summary, and a 'Read article' link.

- Domestic abuse initiative goes UK wide**  
A ground breaking Welsh initiative that supports older people who suffer domestic abuse is set to be extended across the UK.  
[Read article](#)
- Aberystwyth graduate elected EU Commissioner**  
Aberystwyth University Political Studies graduate Virginijus Sinkevičius elected EU Commissioner for Environment, Oceans and Fisheries.  
[Read article](#)
- Public Lecture: Wales, Lord Davies, and the World**  
One of the greatest Welshmen of the 20<sup>th</sup> century will be the subject of the final lecture of the centenary celebrations of the Department of International Politics.  
[Read article](#)

Yn y tudalennau Newyddion Adrannol, caiff yr eitemau newyddion eu dangos mewn ardaloedd penodol yn awtomatig – maent yn ymddangos ar dudalen dewislen arbennig yr adran, ac ar eu tudalen newyddion. Mae prif dudalen Newyddion y Brifysgol yn wahanol oherwydd caiff yr eitemau newyddion eu gosod yn benodol i ardaloedd ar y dudalen Newyddion er mwyn i staff gael rheolaeth lawn. Maent hefyd yn ymddangos ar Hafan y Brifysgol.

## Creu Erthygl Newyddion


Caiff yr holl erthyglau newyddion eu creu a'u storio yn yr ardal **News Archive**.  
Caiff yr ardal hon ei threfnu yn ôl blwyddyn a mis.

Noder, os ydych chi'n creu eitem newyddion ar ddechrau mis, efallai y bydd angen i chi greu adran newydd ar gyfer y mis hwnnw (Gweler Rhan 4).

Graduation 2017	0	0	0	Actions
News Archive	10	0	0	Actions
2006	2	0	0	Actions
2007	2	0	0	Actions
2008	2	0	0	Actions
2009	2	0	0	Actions
2010	2	0	0	Actions
2011	2	0	0	Actions
2012	2	0	0	Actions
2013	1	0	0	Actions
2014	1	0	0	Actions
2015	1	0	0	Actions
2016	1	0	0	Actions
2017	1	0	0	Actions
January	26	0	0	Actions
February	23	1	0	Actions
March	40	0	0	Actions
April	21	1	0	Actions

1. I greu Erthygl Newyddion newydd, agorwch adran y mis priodol trwy glicio arni
2. Cliciwch ar y tab **Content** ac fe welwch restr o unrhyw eitemau newyddion presennol

3. Cliciwch ar y botwm **Add content** a dewis y templed 'News version 2'. Bydd y templed yn ymddangos:



The screenshot shows a web form for adding content. At the top, there are tabs for 'General', 'Content', 'Channels', and 'Options'. The 'Content' tab is active, and the content type is set to 'News version 2'. The form includes several fields: 'Title \*' with a text input field containing 'Enter some text'; 'Name \*' with a text input field containing 'Enter some text'; 'Date released' with a date selection dropdown; 'Abstract \*' with a rich text editor containing a menu (Edit, Insert, View, Format, Table, Tools) and a toolbar with icons for undo, redo, bold, italic, bulleted list, numbered list, link, unlink, image, and link preview. Below the editor is a word count bar showing 'p' and 'Words: 0'. At the bottom, there is a dropdown for 'Using an Image? \*' set to 'Yes' and an 'Image' field with a 'Drop file here or click to choose' instruction and a cloud icon.

4. Llenwch gynifer o'r meysydd ag y mae gennych wybodaeth ar eu cyfer – mae rhai yn hanfodol, ac eraill yn ddewisol:
- a) **Title** (*hanfodol*) – dyma brif bennawd yr eitem newyddion. Cadwch hwn o dan 32 nod.
  - b) **Name** (*hanfodol*) – dyma enw'r darn o gynnwys ac nid yw'n ymddangos i bobl sy'n edrych ar y weddalen – mae hwn er mwyn i chi a'ch cydweithwyr wybod pa ddarn o gynnwys ydyw.
  - c) **Date released** (*hanfodol*) – **NI** chaiff hwn ei lenwi'n awtomatig gyda'r dyddiad a'r amser cyfredol. I ychwanegu'r dyddiad a'r amser cyfredol, cliciwch yn y blwch er mwyn iddo ychwanegu hyn. Neu gallwch ddewis dyddiad ac amser o'ch dewis ar ôl clicio yn y blwch. Ni fydd newid y dyddiad hwn yn effeithio ar bryd y bydd yr eitem newyddion yn

ydddangos ar y wefan – gwneir hyn gan fecanwaith arall – gweler pwynt 6 i gael mwy o wybodaeth.

- d) **Abstract** (*hanfodol*) – dyma grynodeb byr o gynnwys yr erthygl newyddion – bydd yn ydddangos ar y dudalen Newyddion (dim ond ar gyfer storïau yn ardal ganolog y dudalen).
- e) **Using an image?** (*hanfodol*) – dewiswch a fydd gan yr erthygl newyddion lun ai peidio
- f) **Image** – dewiswch lun i'w uwchlwytho i gyd-fynd â'r erthygl newyddion, os ydych chi'n defnyddio un – dylai fod hyd at 1140x500px
- g) **Image Size** – dewiswch yr opsiwn cywir yn seiliedig ar faint eich llun (gweler uchod)
- h) **Caption** – dyma'r pennawd i fynd gyda'r llun – hwn hefyd fydd y testun amgen ar gyfer y llun a bydd hefyd yn ydddangos o dan y llun pan fydd rhywun yn edrych ar yr erthygl lawn. Os ydych chi'n defnyddio llun mae angen i chi lenwi'r adran **Caption**.
- i) **Full text** (*hanfodol*) – dyma brif destun yr erthygl newyddion.
- j) **YouTube Video Code** – os oes arnoch angen dangos fideo gyda'ch erthygl newyddion, rhowch y cod yma. Dim ond rhan olaf y cyfeiriad YouTube sydd ei angen arnoch.
- k) **Full text part 2** – mae hwn yn caniatáu i chi barhau â thestun yr erthygl ar ôl y fideo YouTube os oes angen
- l) **Links** – dyma lle mae rhoi unrhyw ddolenni sy'n gysylltiedig â'r erthygl – caiff y rhain eu gosod yng ngwaelod y golofn ar y dde. Dylech ddefnyddio rhestr o bwyntiau bwled ar gyfer y dolenni, a dylent fod yn ddolenni testun – h.y. peidiwch â theipio cyfeiriad gwe ar gyfer gwefan.

- m) **Contacts** – dyma restr o unrhyw gysylltiadau ar gyfer yr erthygl newyddion – mae’r cysylltiadau’n ymddangos yn y golofn ar y dde pan fydd rhywun yn edrych ar yr erthygl.
  - n) **News code** (*hanfodol*) – dyma lle mae teipio’r cod ar gyfer yr eitem newyddion.
  - o) **Add to AU Homepage?** – dylid ticio hwn os y dylai’r erthygl gael ei dangos ar hafan y brifysgol. Os nad ydych yn ticio hwn bydd y stori ar gael o’r dudalen newyddion yn unig
5. Cliciwch at y botwm **Save changes** i orffen. Byddwch yn mynd yn ôl i’r rhestr o gynnwys.
  6. Trwy edrych ar y rhagolwg o’r mis priodol yn y CMS, fe ddylech weld eich Erthygl Newyddion newydd ar y rhestr.

## Rhoi'r Eitem Newyddion ar y Dudalen Newyddion

Hyd yma, bydd eich eitem newyddion yn ymddangos yn yr archif newyddion yn unig, ac nid ar y brif dudalen newyddion. I osod yr eitem, bydd angen i chi ei drychweddu i'r adran briodol.

- Os hoffech i'ch eitem newyddion ymddangos ar y brig, bydd angen i chi ei drychweddu i'r adran o'r enw "**main story**".
- Os hoffech i'ch eitem newyddion ymddangos oddi tanodd, bydd angen ei drychweddu i "**top story**".

Pan fyddwch yn ychwanegu storïau newydd i rannau o'r Dudalen Newyddion, cofiwch y bydd angen i chi aildrefnu'r storïau eraill. Os ydych chi'n ychwanegu stori newydd i'r "**main story**" bydd angen i chi symud yr hen stori i lawr i "**top story**". Yna efallai y bydd angen i chi hefyd symud storïau allan o "**top story**" os yw'r dudalen yn mynd yn rhy hir.

- I symud eitem o **main story** i **top story**, agorwch yr adran **main story**, dewch o hyd i'r cynnwys yr hoffech ei symud a dewiswch '**move**' o'r ddewislen **Actions** ar gyfer y darn hwnnw o gynnwys. Bydd angen i chi wedyn ddewis **top story** fel y lleoliad newydd ar ei chyfer.
- I dynnu stori o **top story**, ewch i'r darn o gynnwys a dewis '**delete**' o'r ddewislen **Actions** ar gyfer y darn hwnnw o gynnwys. Gofynnir i chi a ydych eisiau ei dynnu o'r adran neu ei ddileu'n llwyr – cadwch y gosodiad ar yr opsiwn i'w dynnu'r o'r adran yn unig a chliciwch ar **Confirm**. Bydd y stori ar gael o'r Archif Newyddion ond ni fydd bellach yn ymddangos ar y brif dudalen newyddion.

# Ychwanegu Misoedd Newydd i'r Archif

(Gan ddefnyddio'r flwyddyn 2018 fel enghraifft)

## 1. Cam 1

- a. Ar strwythur safle'r CMS, ehangwch Newyddion, Archif Newyddion, 2018. Defnyddiwch y ddewislen **Actions** i'r dde o 2018 a dewiswch **Create Section**.
- b. Rhwch enw'r mis fel enw i'r adran, a rhwch rif y mis (gyda 0, e.e. Mawrth yw 03) yn y blwch **Output URI**.
- c. Cliciwch ar **Save changes** i orffen.
- d. Newidiwch iaith, dewch o hyd i'r adran yr ydych newydd ei chreu a chliciwch arni, yna rhwch enw i'r adran yn yr iaith arall a rhwch yr un rhif yn yr **Output URI**.
- e. Cliciwch ar **Save changes** i orffen.
- f. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.

## 2. Cam 2

- a. Ar strwythur safle'r CMS, cliciwch ar yr adran "2018", agorwch y tab **content**, ac addaswch y cynnwys o'r enw "2018".
- b. Ychwanegwch bwynt bwled arall drwy roi eich llygoden ar ddiwedd y mis olaf a phwyso **enter**.
- c. Ysgrifennwch enw'r mis, dewiswch ef, cliciwch ar y botwm "**Insert Link**" a dewiswch '**Insert section link**'. Yn y ffenestr **Select section**, dewch o hyd i adran y mis newydd y gwnaethoch ei chreu yng nghan 1 a chlicio arni i'w dewis.
- d. Cliciwch ar **Save changes** i gadw'r darn hwn o gynnwys.
- e. Newidiwch iaith a gwnewch yr un peth eto yn yr iaith arall.
- f. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.

### 3. Cam 3

- a. Ar strwythur safle'r CMS, cliciwch ar yr adran "Archif Newyddion", agorwch y tab **content**, ac addaswch y cynnwys o'r enw "2018".
- b. Ychwanegwch bwynt bwled arall drwy roi eich llygoden ar ddiwedd y mis olaf a phwyso **enter**.
- c. Ysgrifennwch enw'r mis, dewiswch ef, cliciwch ar y botwm "**Insert Link**" a dewiswch '**Insert section link**'. Yn y ffenestr **Select section**, dewch o hyd i adran y mis newydd y gwnaethoch ei chreu yng nghanam 1 a chliciwch arni i'w dewis.
- d. Cliciwch ar **Save changes** i gadw'r darn hwn o gynnwys.
- e. Newidiwch yr iaith a gwnewch yr un peth eto yn yr iaith arall.
- f. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.



## Ychwanegu Blwyddyn Newydd i'r Archif

(Gan ddefnyddio blwyddyn 2019 fel enghraifft)

### 1. Cam 1

- a. Ar strwythur safle'r CMS, ehangwch Newyddion, Archif Newyddion. Defnyddiwch y ddewislen **Actions** i'r dde o Archif Newyddion a dewiswch **Create Section**.
- b. Nodwch y flwyddyn fel enw i'r adran (e.e. 2019) a defnyddiwch yr un enw yn y blwch **Output URI**.
- c. Cliciwch ar **Save changes** i orffen.
- d. Newidiwch iaith, dewch o hyd i'r adran yr ydych newydd eich chreu a chliciwch arni, yna rhowch enw'r flwyddyn i'r adran eto a'i rhoi yn yr un **Output URI**.
- e. Cliciwch ar **Save changes** i orffen.
- f. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.

### 2. Cam 2

- a. Ar strwythur safle'r CMS, defnyddiwch y ddewislen i'r dde o'ch adran newydd (e.e. 2019) a dewiswch **Add Section**.
- b. Rhowch yr enw "January" i'r adran, a rhowch 01 yn y blwch **Output URI**.
- c. Cliciwch ar **Save changes** i orffen.
- d. Newidiwch iaith, dewch o hyd i'r adran yr ydych newydd eich chreu a chliciwch arni, yna rhowch enw i'r adran yn yr iaith arall a rhowch yr un rhif yn yr **Output URI**.
- e. Cliciwch ar **Save changes** i orffen.
- f. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.

### 3. Cam 3

- a. Ar strwythur safle'r CMS, cliciwch ar adran y flwyddyn newydd (e.e. 2019), agorwch y tab **content**, cliciwch ar **Add Content**, a dewiswch **General Content**.
- b. Rhowch y flwyddyn fel enw i'r cynnwys, a rhowch yr un peth yn y blwch **Title**
- c. Crëwch bwynt bwled gyda'r gair "January" a dewiswch y testun hwn, cliciwch ar y botwm "**Insert Link**" a dewiswch '**Insert section link**'. Yn y ffenestr **Select section**, dewch o hyd i'r adran January y gwnaethoch ei chreu yng nghanam 2 a chliciwch arni i'w dewis.
- d. Cliciwch ar **Save changes** i gadw'r darn hwn o gynnwys.
- e. Newidiwch iaith a gwnewch yr un peth eto yn yr iaith arall.
- f. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.

### 4. Cam 4

- a. Ar strwythur safle'r CMS, cliciwch ar yr adran "Archif Newyddion", agorwch y tab **content**, cliciwch ar **Add Content**, a dewiswch **Expanding Content**.
- b. Nodwch y flwyddyn fel enw i'r cynnwys, a rhowch yr un enw yn y blwch **Link Text**
- c. Crëwch bwynt bwled gyda'r gair "January" a dewiswch y testun hwn, cliciwch ar y botwm "**Insert Link**" a dewiswch '**Insert section link**'. Yn y ffenestr **Select section**, dewch o hyd i'r adran January y gwnaethoch ei chreu yng nghanam 2 a chliciwch arni i'w dewis.
- d. Ticiwch y blwch ticio **Last List Item** ger gwaelod y darn o gynnwys
- e. Cliciwch ar **Save changes** i gadw'r darn hwn o gynnwys.

- f. Newidiwch iaith a gwnewch yr un peth eto yn yr iaith arall.
- g. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.

## 5. Cam 5

- a. Ar strwythur safle'r CMS, cliciwch ar yr adran "Archif Newyddion", agorwch y tab **content**, cliciwch ar y darn o gynnwys o'r flwyddyn flaenorol (e.g. 2018).
- b. Sgrolwch i lawr a thiciwch y blwch **List Item** a thynnwch y tic o'r blwch **Last List Item**.
- c. Cliciwch ar **Save changes** i gadw'r darn hwn o gynnwys.
- d. Newidiwch iaith a gwnewch yr un peth eto yn yr iaith arall.
- e. Newidiwch yn ôl i'ch iaith ddewisol.